

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw: Phil Higginson

Sefydliad (os yn berthnasol): Swyddog Polisi UCAC

e-bost / ffôn: UCAC@UCAC.cymru

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais,
Aberystwyth SY23 2EU

C1. Ydych chi'n cytuno bod angen newid y mesurau perfformiad cyfredol ar gyfer dosbarthiadau chweched dosbarth a cholegau AB? Eglurwch eich rhesymau.

Yr ydym yn cytuno bod angen newid y mesurau hyn. Dyma wybodaeth angenrheidiol wrth gynllunio newidiadau mewn darpariaeth addysg ôl-16 mewn ardal benodedig lle ceir y ddau fath o ddarpariaeth ar hyn o bryd.

C2. Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor gyffredinol o gael cyfres gyson o fesurau, lle'n bosibl, lle mae dysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu tebyg mewn gwahanol leoliadau. Os nad ydych chi'n cytuno, rhowch eich rhesymau.

Rydym yn cytuno â'r egwyddor o gysondeb. Rhaid hefyd bod modd cofnodi ffactorau pwysig, megis argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

C3. Ydych chi'n cytuno bod y mesurau uchod yn briodol? A oes unrhyw fesurau eraill y dylem eu hystyried?

Cytuno, ond dylid ychwanegu darpariaeth Gymraeg fel mesur hefyd.

C4. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r cyfyngiad oedran cyfredol sydd ar waith ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth (dysgwyr 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) i gynnwys pob dysgwr sy'n cyflawni rhaglenni addysg cyffredinol lefel 3 llawn amser yn y chweched dosbarth ac mewn colegau?

Anghytuno. Y perygl o ddiddymu'r cyfyngiad oedran ydyw na fyddai'r gymhariaeth yn deg, gan fod y canran o ddysgwyr hŷn yn uwch mewn colegau nac mewn chweched dosbarth ysgolion.

C5. Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylem fesur deilliannau addysg cyffredinol lefel 3 dros gyfnod o ddwy flynedd?

Ddim yn cytuno nac anghytuno. Er mai dwy flynedd yw cyfnod arferol cwrs lefel 3, hwyrach y dylid cydnabod nad yw pawb yn gwneud cynnydd yn ôl yr un amserlen.

C6. Beth yw eich barn ar y dull arfaethedig o gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer mesur gwerth ychwanegol? Os ydych chi'n ddarparwr dysgu ac eisoes yn defnyddio model gwerth ychwanegol, rhowch wybod i ni pa nodweddion sy'n arbennig o werthfawr ac y dylid eu cynnwys yn ein dull yn y dyfodol.

Mae UCAC yn croesawu'r egwyddor o greu model Cenedlaethol ar gyfer mesur gwerth ychwanegol. Nid yw'n foddhaol bod awdurdodau a cholegau yn defnyddio gwahanol gynhyrchion masnachol i geisio mesur hyn.

C7. Oes gennych chi unrhyw farn ar yr hyn y dylid eu diffinio fel 'cyrchfannau cadarnhaol' ar gyfer dysgwyr ôl-16?

Mae ystyriaethau difrifol ac amlwg ynglŷn â pharu cofnodion dysgwyr gyda data'r Adran Gwaith a Phensiynau, a data Cyllid a Thollau ei Mawrhydi; er y byddai hyn yn "rhoi darlun mwy cynhwysfawr o gyrchfannau dysgwyr", y mae yna oblygiadau amlwg o ran preifatrwydd yr unigolyn ac amddiffyn data.

C8. Ydych chi'n cytuno y dylai data perfformiad fod ar gael yn eang i'r cyhoedd drwy borth ar-lein?

Nid oes gan UCAC unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i rannu data i'r cyhoedd drwy borth ar-lein; noda UCAC y bydd Llywodraeth Cymru yn "ymgyngori ar hyn yn ehangach gyda rhanddeiliaid...maes o law". Bydd rhaid gweld y porth yn ei manylder, a natur a manylder y data a ddangosir arni, cyn lleisio barn bellach.

C9. Oes gennych chi unrhyw farn ar yr amserlen arfaethedig neu unrhyw faterion a allai effeithio ar ein gallu i'w chyflawni?

Dim sylw

C10. Ydych chi'n cytuno y dylem, wrth gyfrifo deilliannau rhaglenni addysg gyffredinol lefel 3, gynnwys cymwysterau cyfwerth â Safon Uwch/AS (cymwysterau o feintiau a gwerth pwyntiau cymharol fel Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru a BTEC)? Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gymwysterau penodol neu fathau o gymwysterau y dylid neu na ddylid eu trin fel rhai cyfwerth? Os felly, nodwch eich rhesymau.

Mae UCAC yn cytuno y dylid cynnwys cymwysterau cyfwerth â Safon Uwch. Dylid hefyd, o ran cyfwerthedd, cymryd Fframwaith Cymwysterau a Credyd (QFC) UCAS, a thariffau UCAS, mewn i ystyriaeth.

C11. Ydych chi'n cytuno y byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi dadansoddiadau o'r graddau sydd wedi'u cyflawni ar gyfer Safonau Uwch, i ddangos deilliannau ar gyfer pynciau unigol lle mae digon yn rhoi cynnig arnynt?

Mae gan ysgolion fynediad at ddata lefel eitem eisoes trwy wefan ddiogel CBAC, at bwrpas gwella addysgu a dysgu. O ran "cyhoeddi" dadansoddiadau o'r graddau, rhaid cael trafodaeth broffesiynol i benderfynu sut i ddehongli'r gair "digon" uchod.

C12. A ddylem gynnwys deilliannau graddau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol? A ddylai hyn fod ar lefel 3 yn unig?

Rhaid sicrhau yn gyntaf fod yna gyfwerthedd cydnabyddedig i'r graddau hynny.

C13. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion penodol cysylltiedig nad ydynt wedi'u trafod yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

A oes rhywbeth i'w ddysgu o'r mesurau cyfatebol a geir yng ngwledydd eraill y DU?

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os ydych chi am i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: